Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dathlu a chyfranogi

## Canllawiau addysg i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Dathlu a chyfranogi - canllawiau addysg i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr**'.

**Rhagfyr 2023**

**978-1-83577-176-1**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 33**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:


**Cyfeiriad:** Cangen Hawliau Plant a Phobl Ifanc mewn Addysg
Is-adran Tegwch mewn Addysg
Llywodraeth Cymru

**E-bost:** CYP.HawliauMewnAddysg@llyw.cymru


Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn fersiwn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**

# Cynnwys

**Am y ddogfen yma** ..... **4**

**Beth mae plant a phobl ifanc wedi ei ddweud wrthyn ni** ..... **7**

Gwasanaethau cymorth ..... 8

**Problemau ac atebion** ..... **9**

Anghenion dysgu ychwanegol ..... 9

Mynd i ysgol newydd ..... 11

Help i deuluoedd sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr ..... 12

Presenoldeb yn yr ysgol ..... 13

Helpu plant a phobl ifanc i fynd i'r ysgol ..... 15

Bwlio a hiliaeth ..... 18

Cyfathrebu â theuluoedd a chymunedau ..... 19

Dathlu diwylliannau ..... 21

Beth mae plant yn ei ddysgu yn yr ysgol ..... 22

Oedolyn mae plant a phobl ifanc yn gallu ymddiried ynddo yn yr ysgol ..... 24

Bod ar-lein ..... 24

Dysgu o gartref ..... 26

Gwahardd o'r ysgol ..... 27

Cymorth gyda chostau ysgol ..... 27

Gwisg ysgol ..... 29

Symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ..... 30

Dewisiadau ar ôl ysgol uwchradd ..... 31

**Geiriau anodd** ..... **33**

# Am y ddogfen yma




Mae'r ddogfen yma yn dangos sut mae ysgolion yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr.**




Rydyn ni eisiau i blant a phobl ifanc sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** allu gwneud yn dda yn yr ysgol.




Mae pobl **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** yn grwpiau o bobl sydd weithiau'n teithio o le i le.



Mae rhai teuluoedd yn dewis byw mewn un lle, mewn tŷ.



Mae pobl **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** yn cael eu galw yn **lleiafrifoedd ethnig**. Mae hyn yn meddwl eu bod nhw yn rhan fach o'r boblogaeth yng Nghymru.



Mae pobl **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** i gyd yn wahanol. Mae gan bob un ei hanes, ei **ddiwylliannau** a'i ffyrdd o fyw ei hun.



Mae **diwylliant** yn grŵp o gredoau a thraddodiadau cyffredin pobl. Mae'n cynnwys y pethau mae grŵp o bobl yn eu gwneud, eu hanes, eu hiaith a'r ffordd maen nhw'n byw.



Mae adroddiadau wedi dangos bod pobl **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** weithiau'n cael eu trin yn annheg.



Weithiau mae teuluoedd **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** wedi mynd â'u plant neu bobl ifanc allan o'r ysgol oherwydd eu bod yn credu nad ydy ysgolion yn deall beth sy'n bwysig iddyn nhw.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod ysgolion yn trin plant a phobl ifanc **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** yn gyfartal ac yn deg.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr nad ydyn nhw'n profi **bwlio** na **hiliaeth**.



**Bwlio** ydy pan fydd un person neu grŵp o bobl yn trin rhywun arall mewn ffordd wael.

Mae bwlio yn gallu bod yn bethau fel:

- Dweud pethau cas
- Cael eich anwybyddu neu eich gadael allan
- Cael eich taro, eich cicio neu'ch gwthio
- Dweud celwydd.



**Hiliaeth** ydy pan fydd rhywun yn cael ei drin yn wael neu'n annheg oherwydd ei hil neu gefndir.

# Beth mae plant a phobl ifanc wedi ei ddweud wrthyn ni



Fe wnaethom ofyn i blant a phobl ifanc sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** ddweud wrthyn ni beth sy'n bwysig iddyn nhw.



Roedd hyn er mwyn ein helpu i wneud y ddogfen yma.



Pan wnaethon ni ofyn iddyn nhw am yr ysgol, roedden nhw'n dweud pethau gwahanol.



Roedd y rhan fwyaf yn hoffi ysgol ac yn mwynhau gwersi.



Roedd rhai yn wynebu problemau oedd yn gwneud iddyn nhw fod eisiau gadael yr ysgol a dysgu gartref.



Fe wnaethon ni ofyn sut mae modd eu cefnogi orau.



Dywedodd llawer eu bod eisiau:

- cael pobl i wrando arnyn nhw
- a chael mwy o amser i ddeall pethau sy'n newydd ac weithiau'n anodd.

## Gwasanaethau cymorth




Mae llawer o gynghorau lleol yn darparu gwasanaethau cymorth. Mae'r rhain yn helpu ysgolion i ddeall anghenion plant sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr**.

# Problemau ac atebion



Yn yr adran yma fe fyddwn ni'n siarad am rai o'r problemau y mae plant a phobl ifanc sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** wedi sôn wrthyn ni amdanyn nhw.



Fe fyddwn ni'n siarad am ffyrdd o ddelio â'r problemau hyn.

## Anghenion dysgu ychwanegol



Efallai y bydd gan rai plant a phobl ifanc **anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**.



Mae angen cymorth ychwanegol ar blant a phobl ifanc ag **ADY** i ddysgu.



Dywedodd rhieni nad ydy hi bob amser yn hawdd dweud a oes gan eu plentyn **ADY**.




Mae'n bwysig bod yr ysgol a'r teulu yn siarad â'i gilydd am unrhyw help mae ei plentyn neu berson ifanc ei angen.



Mae Llywodraeth Cymru wedi newid y ffordd y mae plant a phobl ifanc ag **ADY** yn cael eu cefnogi yn yr ysgol.




Efallai bod angen cefnogaeth ar deuluoedd os ydy eu plentyn yn cael archwiliad i weld a oes ganddyn nhw **ADY**. Mae hyn yn cael ei alw yn **asesiad ADY**.




Os ydy'r ysgol neu'r awdurdod lleol yn credu bod gan y plentyn neu'r person ifanc **ADY**, rhaid iddyn nhw ddarparu cynllun dysgu ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

# Mynd i ysgol newydd




Mae teuluoedd yn aml yn hoffi i'w plant fynd i ysgolion lle mae plant eraill sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr**.



Mae gan rieni yr hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol. Os oes lleoedd ar gael, mae'n rhaid i ysgolion gynnig lle.



Dylai plant a phobl ifanc gael eu cofrestru mewn ysgol hyd yn oed os yw am gyfnod byr.



Mae teuluoedd sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** yn gallu cael hep i ofyn am le mewn ysgol.

# Help i deuluoedd sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr



Mae'r rhan fwyaf o gynghorau lleol yn cynnig gwasanaeth sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr**. Enw'r gwasanaeth yma ydy'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr (TES).



Mae'r gwasanaeth yma yn cefnogi dysgwyr o bob oed o'r meithrin i dros 16 oed a'u teuluoedd.



Mae'r **Gwasanaeth Addysg i Deithwyr** wedi gweithio'n dda gyda llawer o deuluoedd. Maen nhw wedi cefnogi plant a phobl ifanc sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** i ddod yn ôl i'r ysgol ar ôl gadael neu fynd i deithio.



Mae'r gwasanaeth yn gallu cysylltu â theuluoedd yn uniongyrchol i roi cymorth. Maen nhw'n gallu helpu teuluoedd i wneud cais am leoedd ysgol ar amser.



Maen nhw'n gallu cefnogi plant a phobl ifanc sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** sy'n mynd i'r ysgol, a'r rhai sy'n dysgu gartref.

# Presenoldeb yn yr ysgol



Mae llai o blant a phobl ifanc sy’n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** yn mynd i’r ysgol na grwpiau eraill.



Weithiau mae rhieni wedi cael profiad gwael o’r ysgol eu hunain. Mae hyn yn gallu gwneud iddyn nhw beidio ag anfon eu plant i’r ysgol.



Mae llawer o deuluoedd sy’n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** yn credu ei bod yn bwysig gofalu am y teulu a gweithio i’r busnes teuluol. Maen nhw’n gwneud hyn yn lle mynd i’r ysgol.



Hefyd, efallai na fydd rhai teuluoedd yn cytuno â rhai o’r pethau sy’n cael eu haddysgu mewn ysgolion. Efallai nad ydy e’n arferol yn eu **diwylliant** neu eu ffydd.



Mae teuluoedd hefyd yn poeni bod eu plentyn neu berson ifanc yn cael ei **fwlio** neu'n wynebu **hiliaeth**.



Mae'r profiadau drwg yma yn gallu creu gofid i blant a phobl ifanc felly efallai eu bod eisiau gadael yr ysgol.




Rydyn ni wedi gwneud canllaw i helpu ysgolion i wybod beth i'w wneud os nad ydy plentyn neu berson ifanc yn dod i'r ysgol yn rheolaidd. Y Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan ydy enw'r canllaw yma.




Mae cyfraith o'r enw **Deddf Addysg 1996** hefyd. Mae'r Ddeddf yma yn sôn am wneud yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael yr addysg maen nhw ei hangen.

# Helpu plant a phobl ifanc i fynd i'r ysgol




Mae angen i ni ddod i ddeall beth sydd yn gallu helpu plant a phobl ifanc i fynd yn ôl i'r ysgol, os:

- nad ydyn nhw'n mynd i'r ysgol yn ddigon aml,
- nad ydyn nhw'n mynd i'r ysgol o gwbl.

**Mae'n rhaid i ni feddwl am:**




- Anghenion y plentyn neu'r person ifanc.



- **Diwylliant** a **chred** y teulu.

> **Cred** ydy ymddiried neu fod â ffydd mewn rhywun neu rywbeth.



Fe ddylai ysgolion adael i blant sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** gael amser i ffwrdd os ydyn nhw'n teithio gyda'u teulu, a byddan nhw'n dychwelyd i'r ysgol.




Daeth cyfraith allan yn 2010 o'r enw **Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru)**. Mae'n dweud bod plant sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** yn gallu cael eu cofrestru mewn mwy nag 1 ysgol. Mae hyn yn helpu plentyn sy'n teithio gyda'i deulu.



Mae'n gallu bod o help i'r ysgol a'r teulu siarad gyda'r **Gwasanaeth Addysg i Deithwyr** lleol am ragor o wybodaeth.



Efallai y bydd rhai ysgolion yn gallu helpu plant neu bobl ifanc i ddysgu tra byddan nhw i ffwrdd yn teithio.



Dyma enghraifft o waith da yn cael ei wneud yng Nghymru.




Roedd cyngor lleol yn cyflogi **Swyddog Teithwyr Sipsiwn**. Fe wnaethon nhw roi cyngor a hyfforddiant i staff ysgol i ddeall plant a phobl ifanc sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** yn well.



Fe wnaethon nhw lawer o waith i gefnogi teuluoedd plant a phobl ifanc sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr**.



Roedd hyn yn gwella presenoldeb plant a phobl ifanc sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** lleol mewn ysgolion.



Dywedodd swyddog y cyngor mai cyfarfod gyda'r rhieni oedd y peth oedd yn helpu fwyaf yn aml iawn.

# Bwlio a hiliaeth



Weithiau mae plant a phobl ifanc sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** yn cael profiad o **fwlio** neu **hiliaeth** yn yr ysgol.



Maen nhw'n gallu cael eu trin yn wael neu'n annheg gan bobl eraill, neu blant eraill.



Mae plant a phobl ifanc sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** yn fwy tebygol o gael y profiadau drwg yma.



Os bydd hyn yn digwydd, fe ddylai pob ysgol ei stopio rhag digwydd eto.




Rydyn ni yn diweddaru ein canllaw i ysgolion am ddelio â **bwlio**.




Fe fydd hyn yn cynnwys cyngor i ysgolion ar ddelio â **bwlio hiliol**.



Rhaid i ysgolion wneud yn siŵr bod plant sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg bob amser.

## Cyfathrebu â theuluoedd a chymunedau



Mae'n bwysig i ysgolion feithrin perthynas dda â'u cymunedau **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** lleol.

Mae'n gallu bod yn anodd i ysgolion gyfathrebu â theuluoedd oherwydd:



- Efallai na fydd rhai rhieni yn gallu darllen yn dda iawn.



- Efallai na fydd gan rai teuluoedd y rhyngrwyd nac e-bost.





- Dydy rhai teuluoedd ddim yn siarad llawer o Gymraeg na Saesneg oherwydd eu bod yn defnyddio eu hiaith eu hunain, fel Roma.




Efallai y bydd angen cymorth ar deuluoedd i gael gwybod lle mae eu plentyn neu berson ifanc yn gallu mynd i ddysgu Cymraeg neu Saesneg.

# Dathlu diwylliannau



Mae'n bwysig iawn bod pob plentyn a pherson ifanc yn dysgu am wahanol **ddiwylliannau** mewn ysgolion.



Pan fydd plant a phobl ifanc yn dysgu mwy am ei gilydd, mae'n gallu helpu i leihau **bwlio**.

Mae ysgolion yn gallu helpu i ddysgu a dathlu **diwylliannau** **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** drwy:




- Cymryd rhan mewn digwyddiad sydd yn cael ei gynnal bob blwyddyn o'r enw **Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr**.



- Gofyn i deuluoedd ddod i siarad â phlant a phobl ifanc yn yr ysgol am eu hanes a'u **diwylliant**.

# Beth mae plant yn ei ddysgu yn yr ysgol



Y **cwricwlwm** ydy'r enw sydd yn cael ei roi ar y pynciau y mae plant yn eu dysgu yn yr ysgol.



Mae ein **cwricwlwm** yn helpu ysgolion i weithio mewn mwy o ffyrdd gyda theuluoedd a chymunedau lleol.



Mae hyn yn bwysig os oes yna bethau nad ydy teuluoedd wedi arfer siarad amdanyn nhw gydag eraill, yn cynnwys yr ysgol.



Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhan bwysig o'r **cwricwlwm** ym mhob ysgol.




Mae’n bwysig bod ysgolion yn helpu rhieni a theuluoedd i ddeall beth sydd yn cael ei addysgu, a pham.



Rydyn ni’n gwneud canllaw ar wahân i gefnogi ysgolion i addysgu’r pwnc yma.



Fe ddylai ysgolion fod yn ymwybodol o anghenion yr holl blant a phobl ifanc.



Fe ddylai plant a phobl ifanc gael cymorth i ddysgu mewn ffordd sy’n iawn iddyn nhw.

## Oedolyn mae plant a phobl ifanc yn gallu ymddiried ynddo yn yr ysgol



Fe wnaeth llawer o blant a phobl ifanc sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** ddweud ei bod yn bwysig iddyn nhw gael rhywun yn yr ysgol sy'n deall eu **diwylliant**.



Mae gan rai ysgolion y **Gwasanaeth Addysg i Deithwyr** neu athro/athrawes y gall plant a phobl ifanc fynd iddo/iddi os oes angen iddyn nhw siarad.

## Bod ar-lein



Does gan rai teuluoedd ddim cyfrifiaduron na rhyngrwyd i'r plant a'r bobl ifanc eu defnyddio i wneud eu gwaith ysgol.



Rydyn ni wedi gwneud yn siŵr bod gwasanaethau ar-lein ar gael i bob ysgol ar draws Cymru.



Rydyn ni wedi gwario llawer o arian ar offer i ysgolion.

**Enghraifft o waith da sy’n cael ei wneud yng Nghymru:**



Fe wnaeth ysgol yng ngogledd Cymru roi gwaith ysgol ar bapur i rai plant. Roedd hyn oherwydd ei bod yn well ganddyn nhw ddysgu fel hyn, neu oherwydd eu bod nhw’n teithio.



Ond roedden nhw hefyd yn cefnogi teuluoedd i ddefnyddio cyfrifiaduron.

# Dysgu o gartref



Weithiau mae'n well gan deuluoedd sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** addysgu eu plant eu hunain gartref.

Rydyn ni'n galw'r hyn yn **addysg yn y cartref**.




Rydyn ni wedi gwneud canllaw am **addysg yn y cartref**.



Mae'n syniad da i deuluoedd weithio gyda:

- yr ysgol
- y **Gwasanaeth Addysg i Deithwyr**
- gwasanaethau eraill.



Mae hyn i gyd yn gallu helpu rhieni a theuluoedd i wneud **addysgu yn y cartref** yn dda.

## Gwahardd o’r ysgol




Mae **gwahardd** o’r ysgol yn meddwl nad ydy plentyn yn cael mynd i’r ysgol.



Rydyn ni’n gwybod bod plant sy’n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** yn cael eu **gwahardd** yn fwy na rhai plant eraill.



Fe fyddwn ni’n gwneud canllaw newydd ar **wahardd** i helpu ysgolion, plant a phobl ifanc.

## Cymorth gyda chostau ysgol



Mae teuluoedd yn gallu ei chael hi’n anodd talu am gostau mynd i’r ysgol. Mae yna help ar gael.





Mae yna grant o’r enw **Grant Hanfodion Ysgol**.



Mae hyn yn gallu helpu teuluoedd i dalu am wisg ysgol, dillad ymarfer corff a phethau eraill sydd eu hangen i ddysgu.

Mae teuluoedd yn gallu gwneud cais os nad oes ganddyn nhw lawer o arian. Ac os ydy eu plentyn mewn:

- Ysgol gynradd o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6.
- Ysgol uwchradd o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 11.



Mae teuluoedd yn gallu gwneud 1 cais y flwyddyn ar gyfer pob plentyn.

Mae'r mudiad o'r enw **Plant yng Nghymru** wedi gwneud canllawiau i ysgolion am gostau pethau.

Mae'r canllaw ar-lein yn sôn am sut y gall ysgolion helpu teuluoedd i fforddio'r pethau sydd eu hangen ar gyfer dysgu.

# Gwisg ysgol



Rydyn ni wedi gwneud canllaw am wisg ysgol.



Mae'n dweud y dylid cadw'r gwisgoedd ysgol yn syml er mwyn cadw costau i lawr.



Fe ddylech chi allu prynu gwisg ysgol mewn siopau gwahanol.



Mae hefyd yn dweud y dylai ysgolion gael ffordd i rieni gael gwisgoedd ysgol ail law.

# Symud o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd



Mae ysgolon yn gallu helpu plant a phobl ifanc i baratoi i fynd i ysgol uwchradd. Maen nhw’n gallu:



- Siarad gyda rhieni am wahanol opsiynau ar gyfer eu plentyn neu berson ifanc a pha bynciau y gallan nhw ddewis eu dysgu.



- Rhoi cyfle i’r plentyn a’r teulu ddod i weld yr ysgol uwchradd cyn iddyn nhw ddechrau.



- Rhoi gwybodaeth maen nhw ei hangen i deuluoedd a phlant a phobl ifanc.

# Dewisiadau ar ôl ysgol uwchradd



Fe ddylai pob plentyn a pherson ifanc gael gwybodaeth am eu dewisiadau ar gyfer dysgu ar ôl 16 oed.



Er enghraifft, efallai y byddan nhw eisiau astudio'n llawn amser neu'n rhan-amser.



Efallai y byddan nhw eisiau aros yn yr ysgol a sefyll arholiadau Safon Uwch, mynd i'r coleg, dilyn hyfforddiant i gael swydd neu ddod yn brentis.



Efallai y bydd rhai plant a phobl ifanc eisiau meddwl am fynd i'r brifysgol pan fyddan nhw'n 18 oed.



Mae angen i ysgolion a cholegau wneud yn siŵr bod gwybodaeth am gymorth ar gael yn hawdd.

Fe fydd hyn yn helpu plant a phobl ifanc sy'n **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** i wneud dewisiadau da.

**Mae ysgolion, colegau a'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr lleol yn gallu cefnogi plant a phobl ifanc trwy**:



- Helpu gyda ffurflenni cais.



- Trefnu ymweliadau â'r coleg newydd cyn iddyn nhw ddechrau.



- Helpu gyda hyfforddiant.



- Cefnogi dysgwyr sy'n cael eu haddysgu yn y cartref i gael mynediad i gyrsiau yn y coleg.

# Geiriau anodd

## Bwlio

Bwlio ydy pan fydd un person neu grŵp o bobl yn trin rhywun arall mewn ffordd wael. Mae bwlio yn gallu bod yn bethau fel:

- Dweud pethau cas
- Cael eich anwybyddu neu eich gadael allan
- Cael eich taro, eich cicio neu'ch gwthio
- Dweud celwydd.

## Cred

Cred ydy ymddiried neu fod â ffydd mewn rhywun neu rywbeth.

## Cwricwlwm

Y cwricwlwm ydy'r enw sydd yn cael ei roi ar y pynciau y mae plant yn eu dysgu yn yr ysgol.

## Diwylliant

Diwylliant ydy credoau a thraddodiadau sydd gyda grŵp o bobl yn gyffredin. Mae'n cynnwys y pethau mae grŵp o bobl yn eu gwneud, eu hanes, eu hiaith a'r ffordd maen nhw'n byw.

## Hiliaeth

Hiliaeth ydy trin rhywun yn wael neu'n annheg oherwydd ei hil neu ei gefndir.